



---

## **Bwyd a Werthir Ar-lein**

Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol

---

## **Rhagfyr 2016**

## Crynodeb

Y gynulleidfa darged:	Awdurdodau lleol
Pa rai o wledydd y DU y mae'r canllawiau hyn yn eu cwmpasu?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru</li> <li>• Lloegr</li> <li>• Gogledd Iwerddon</li> </ul>
Diben:	Bwriad y canllawiau yw helpu swyddogion awdurdodau lleol wrth ymdrin â busnesau sy'n gwerthu bwyd dros y we.
Statws cyfreithiol:	Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynhyrchu i egluro'r prif ofynion cyfreithiol mewn perthynas â bwyd a chynhwysion bwyd a werthir dros y we.
Geiriau allweddol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerthu bwyd ar-lein</li> <li>• Gwerthu ar y we</li> <li>• Cyfraith bwyd, monitro a rheolaethau</li> <li>• Hylendid a diogelwch bwyd</li> <li>• Safonau bwyd</li> </ul>
Dyddiad adolygu	Rhagfyr 2017

## Hanes diwygio

Diwygiad rhif	Dyddiad diwygio	Diben yr adolygiad a rhif y paragraff	Adolygwyd gan
1	Rhagfyr 2016	Y Cyhoeddiad Cyntaf	Julie Smith / James Ambrose

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	5
Lefelau o ddiffyg cydymffurfio .....	6
Canfod busnesau ar-lein yn ardal yr awdurdod lleol.....	8
Arolygu busnesau bwyd ar-lein.....	9
Gofynion cyfreithiol sylfaenol .....	10
Samplu .....	11
Gofynion samplu.....	13
Mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio.....	14
Dirwyn presenoldeb busnes ar-lein i ben.....	15
Cyfeirio at awdurdodau porthladd .....	17
Addysgu defnyddwyr .....	17
Atgyfeirio a rhannu gwybodaeth .....	18
Cynigion y dyfodol .....	19
Ffynonellau hyfforddiant/cymorth pellach .....	19
Dolenni defnyddiol .....	20
Atodiad A – Cyngor ar chwilio ar y we .....	21
Atodiad B – Dod o hyd i gyfeiriadau daearyddol busnesau .....	23
Atodiad C – Senarios enghreifftiol .....	25
Atodiad D – Casglu tystiolaeth ddigidol .....	28

# Bwyd a Werthir Ar-lein

## Canllawiau i Awdurdodau Lleol

### Cyflwyniad

1. Bwriad y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol (ALLau) wrth asesu a monitro cydymffurfiaeth busnesau sy'n gweithredu ar-lein â chyfraith bwyd. Mae'n darparu technegau arolygu a nodi penodol, canllawiau samplu a dealltwriaeth sylfaenol o gasglu tystiolaeth ddigidol.
2. Nid yw cwmpas y canllawiau hyn yn cynnwys ffurfiau eraill o werthu o bell, megis archebu drwy'r post, gwerthu dros y ffôn a bwyd anifeiliaid. Serch hynny, gellir defnyddio nifer o'r technegau sydd wedi'u cynnwys yma ar gyfer y meysydd hyn.

### Cefndir

3. Wrth i fwyfwy o ddefnyddwyr brynu eu bwyd ar-lein, mae'n bwysig bod awdurdodau bwyd yn addasu eu gweithgarwch arolygu a samplu traddodiadol er mwyn sicrhau bod bwyd a werthir ar-lein yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'r peryglon a ddaw o beidio gwneud hynny yn amlwg o'r enghreifftiau canlynol:

Mae **Dinitrophenol (DNP)** yn gemegyn diwydiannol, a werthir fel atchwanegiad colli pwysau. Mae bwyta'r cemegyn hwn wedi arwain at farwolaeth mewn o leiaf chwe achos yn y Deyrnas Unedig (DU) yn 2015 yn unig. Bu marwolaethau pellach yn Ffrainc a Norwy. Mae'r effeithiau 'coginio oddi mewn' peryglus y mae'n ei chael ar gyrff pobl wedi'u canfod ers 1933. Er hynny, mae'n parhau i ymddangos ar y farchnad ar-lein fel atchwanegiad bwyd. Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB wedi bod yn gweithio â phartneriaid yn cau gwefannau sy'n gwerthu DNP yn y Deyrnas Unedig (DU) ac ar draws y byd.

Mae **Methylhexanamine**, a gaiff ei adnabod hefyd fel 1,3-

dimethylamylamine, geranamine neu DMAA, yn gemegyn cyfansawdd organig sy'n cael ei weithgynhyrchu fel powdr synthetig. Mae wedi ei werthu ar-lein fel cyfnerthwr ffitrwydd, a'i ddisgrifio'n anghywir fel 'cynnyrch naturiol' yn aml, ac mae'n dod o olew mynawyd y bugail (*geranium*). Mae'n achosi perygl o strôc, hepatitis, ac mae wedi bod yn gysylltiedig â nifer o farwolaethau.

Roedd **rasperry ketones** yn gynnyrch poblogaidd ar-lein yn 2015, ar ffurf atchwanegyn. Erbyn hyn caiff ei ystyried yn fwyd newydd (*novel food*), ac felly mae angen i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop asesu a yw'n ddiogel. Mae ymchwilwyr o Ddenmarc wedi rhybuddio y gallai rhai lefelau o'r cynhyrchion hyn fod yn wenwynig.

Mae cynnydd mewn gwerthu **llaeth dynol o'r fron** ar-lein. Mae hyn yn dod â pherygl o hepatitis B a C, HIV a syffilis, ynghyd â bacteria niweidiol megis E.coli, candida, a pseudomonas aeruginosa. Caiff ei werthu nid yn unig i famau sy'n methu bwydo o'r fron, ond hefyd i bobl sy'n magu cyhyrau, cleifion cancr a phobl sydd â ffetis.

## Lefelau o ddiffyg cydymffurfio

4. Mae'r frawddeg 'ond mae pawb arall yn ei wneud' yn un y mae swyddogion yn ei chlywed yn aml wrth geisio mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ar-lein. Mae'n dasg anodd i un swyddog neu ALI fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ar lefel eang.
5. Po fwyaf yr ALLau sy'n cynnal gweithgarwch adweithiol a rhagweithiol mewn perthynas â gwerthu bwyd ar-lein, yr hawsaf y bydd i ddiogelu defnyddwyr. Bydd hyn hefyd yn helpu busnesau sydd eisiau cydymffurfio, ond sy'n canfod bod cystadleuaeth annheg gan y busnesau hynny nad ydynt yn cydymffurfio.
6. Mewn arolwg rhanbarthol a gynhaliwyd yn ardal Safonau Masnach y Gogledd Ddwyrain yn 2015, o'r 213 honiad iechyd ar-lein a arolygwyd, roedd 162 ohonynt nad

oedd yn cydymffurfio – sgôr methiant o 76%. Unwaith y cynhaliwyd gwaith dilynol sylweddol a pharhaus, canfu adolygiad pellach bod y raddfa gydymffurfio yn 72%. Roedd hyn yn gynnydd mawr o 48%, sy'n dangos y gall ymyrryd (drwy gynghori yn bennaf) fod yn effeithiol, hyd yn oed os yw'n ddwys o ran adnoddau.

7. Cynhaliodd tîm Safonau Masnach Swydd Warwick gyfres o arolygon bychain ar-lein yn 2015:
  - **Prynu samplau bwyd anifeiliaid dros y we** – methodd y saith sampl a brynwyd gan nad oedd y labeli yn cydymffurfio, a chanfuwyd bod un wedi'i ddifwyno.
  - **Prynu losin ar-lein gan arbenigwyr y DU mewn losin Americanaidd** – methodd y saith sampl a brynwyd o achos labeli annigonol.
  - **Prynu cig a chynhyrchion cig ar-lein megis selsig a phasteiod, cyn eu casglu o siopau** – o'r saith sampl a brynwyd, roedd pob un ond un yn anfodhaol o achos diffyg cynnwys cig, presenoldeb rhywogaethau eraill a labelu annigonol. Gwnaeth yr arolwg hefyd nodi dau gynhyrchwr cig anhysbys newydd.
8. Canfu adolygiad o 20 gwefan am gydymffurfiaeth gyda darpariaethau cyfraith defnyddwyr, megis hawliau canslo ac e-fasnach, nad oedd 75% yn cydymffurfio. Methodd 65% â rhoi gwybodaeth ddigonol i ddefnyddwyr am hawliau canslo. Mewn perthynas ag olrhain bwyd yn benodol, methodd 20% â nodi eu hunaniaeth gyfreithiol.
9. Ar draws yr holl arolygon, cafwyd graddfa fethiant o 90%. Mae canlyniadau o'r fath yn dangos bod yr ASB a'r UE wedi nodi e-fasnach fel perygl uchel i ddiogelwch bwyd.
10. Mae'r canllawiau hyn yn rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â'r materion hyn, ynghyd â chyfathrebu â defnyddwyr, cyngor i fusnesau ar-lein, a datblygu gwell dulliau o rannu gwybodaeth.

## Canfod busnesau ar-lein yn ardal yr awdurdod lleol

11. Dylai ALLau dargedu gweithgarwch arolygu a samplu mewn busnesau ar-lein sy'n gweithredu o fewn ardal eu ALI.
12. Mae'r [Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd](#) yn rhoi cyfarwyddyd ar orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell, a gwybodaeth ar ofynion cyfreithiol generig eraill mewn perthynas â gwerthu o bell.

### **Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Pennod 7, 7.11.4)**

Mae gwerthu bwyd o bell o'r DU wedi'i gynnwys yn y gyfraith bwyd perthnasol. Felly mae'n rhaid i fwyd a werthir o bell o'r DU gydymffurfio â'r union ofynion cyfreithiol a bwyd a werthir o archfarchnad ar y stryd fawr; ac mae'n rhaid i hysbysebion ar gyfer bwyd o'r fath gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer bwyd mewn papur newydd cenedlaethol yn y DU.

Mae Awdurdodau Cymwys felly yn gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell o'r DU, gan gynnwys bwyd a gaiff ei hysbysebu neu ei werthu drwy wefannau sydd wedi'u lleoli yn y DU.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Cymwys felly fod â dull priodol o fonitro bwyd a werthir o bell gan fusnesau y maent yn awdurdod cartref arnynt.

13. Dylai ALLau sicrhau y caiff gwybodaeth ei chasglu am fusnesau yn yr ardal sydd â phlatform gwerthu ar-lein, a chynnwys hyn fel rhan allweddol o'u protocol arolygu. Gellir cyflawni hyn gyda chod safle/adeilad ar gyfer busnesau we ar system wybodaeth rheoli safleoedd bob ALI. Gellir defnyddio hyn fel prif ddefnydd os yw'r busnes yn gwerthu ar-lein yn unig, neu fel defnydd atodol os oes gan y busnes safle gwerthu ffisegol hefyd.
14. Gall busnesau werthu eu bwyd wrth ddefnyddio ystod o blatfformau gwerthu ar-lein:

- gwerthu drwy eu gwefan eu hunain
  - gwerthu drwy wefannau trydydd parti megis eBay, Amazon, Just Eat, Alibaba a Takestock (mae'r ddau ddiwethaf yn blatfformau gwerthu busnes i fusnes)
  - gwerthu drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu megis Facebook
  - Mae Atodiad A yn rhoi cyngor ar sut i chwilio am fusnesau bwyd sy'n gweithredu ar eBay ac Amazon.
15. Wrth werthu drwy eu gwefan eu hunain, gellir canfod enw a chyfeiriad cyfreithiol y busnes drwy eu tudalen 'Cysylltwch â ni', neu dudalennau telerau ac amodau. Lle darperir enw cyfreithiol megis enw cwmni cyfyngedig, ond dim cyfeiriad, dylid cynnal chwiliad Tŷ'r Cwmnïau.
16. Nid yw rhai gwefannau yn dangos eu henw a'u cyfeiriad cyfreithiol, a gall bod angen 'chwilio'r enw parth' er mwyn sefydlu pwy yw perchennog gwefan. Gweler **Atodiad B** i gael gwybodaeth ar sut i wneud hyn.
17. Mae'r technegau hyn yn dod yn haws wrth eu defnyddio'n amlach, yn enwedig os ydynt wedi'u gosod yn rhan o weithgarwch arolygu blynyddol. Gall hyn gynnwys gwaith prosiect ar y cyd â phartneriaid megis grwpiau cyswllt bwyd lleol er mwyn casglu adnoddau, profiadau a gwybodaeth.

## Arolygu busnesau bwyd ar-lein

18. Unwaith y mae'r busnesau bwyd ar-lein wedi'u nodi, mae angen eu cofrestru, eu harolygu a rhoi sgôr risg iddynt ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol. Gall bod angen cynnal arolygiadau mewn dau gyfnod:
- adolygu'r wefan er mwyn meithrin dealltwriaeth o natur y busnes ac unrhyw faterion cydymffurfio, yn enwedig i swyddogion safonau. Dylid ystyried cymryd samplau ar y pwynt hwn.



- ymweliad â chyfeiriad y busnes bwyd ar-lein. Gall hyn fod yn breswylfa breifat, uned storio, warws neu safle manwerthu.

## Gofynion cyfreithiol sylfaenol

### Hylendid bwyd

Cofrestru fel busnes bwyd

Cyflenwi bwyd diogel, gan gynnwys rheolaethau tymheredd a phecynnu digonol wrth gludo

System Rheoli Diogelwch Bwyd yn seiliedig ar yr egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP)

Cynnal y gallu i olrhain

### Safonau bwyd

Darparu gwybodaeth hanfodol ar-lein ac wrth ddanfon

Darparu enw'r busnes a chyfeiriad daearyddol

Nid yw'r honiadau'n gamarweiniol ac maent yn bodloni gofynion megis honiadau maeth/iechyd

Mae unrhyw fwyd newydd wedi'u hawdurdodi ac yn bodloni'r amodau defnyddio

### **Arfer da**

Dylai'r holl wybodaeth am fwyd, ac eithrio dyddiad oes, fod ar gael cyn gorffen prynu. Dylai ymddangos ar y deunydd gwerthu o bellter, neu ei ddarparu drwy ddull priodol arall sydd wedi'i nodi'n glir gan weithredwr y busnes bwyd.

Pan ddefnyddir dulliau priodol eraill, dylid darparu gwybodaeth am fwyd heb i weithredwr y busnes bwyd godi taliadau ychwanegol ar y defnyddwyr. Nid yw'n briodol i wefan y gwerthwr gyfeirio'r defnyddiwr i rywle arall am wybodaeth bwyd hanfodol a phwysig (e.e. drwy gyfeirio'r defnyddiwr i wefan y gweithgynhyrchwr i gael gwybodaeth am alergenau, ac oddi ar dudalen y cynnyrch ar wefan y manwerthwr)

19. Mae **Atodiad C** yn cynnwys rhywfaint o sefyllfaoedd enghreifftiol.

## **Samplu**

20. Ynghyd â monitro cydymffurfiaeth busnesau bwyd sydd yn eu hardal, gellir targedu arolygon samplu ar gynhyrchion risg uchel y gall defnyddwyr yn eu hardal eu prynu dros y we. Dylid dilyn dull seiliedig ar risg a arweinir gan wybodaeth (*intelligence*) i dargedu gweithgarwch samplu ar-lein er mwyn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

21. Cyn prynu samplau ar-lein, mae angen y canlynol:

<b>Cyfeiriad e-bost</b>	Argymhellir defnyddio cyfeiriad e-bost dienw. Gall defnyddio cyfeiriad e-bost y cyngor rybuddio'r busnes bod sampl yn cael ei gymryd, ac efallai nad yw'n briodol defnyddio cyfeiriad e-bost personol. Mae agor cyfrif e-bost megis Google yn broses syml, at ddibenion prynu samplau. Mae rhai ALLau yn creu persona prynu y gall nifer o swyddogion ei ddefnyddio er mwyn gwneud hyn. Dylech gadw cofnodion cywir o bryd ddefnyddir y persona prynu a chan bwy at ddibenion tystiolaeth a chyfrifo, yn ogystal â chofnodion dyddiadur y swyddog.
<b>Cardiau credyd neu gyfleuster talu dienw</b>	Dyma'n aml yw'r rhan anodd i ALLau sydd â gweithdrefnau rheoli ariannol trylwyr. Os nad oes cerdyn credyd gennych eisoes, dylech siarad â'ch tîm cyllid, a chyflwyno achos busnes i gael cerdyn er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol. Gall hyn gymryd rhywfaint o amser i'w drefnu.
<b>Cyfeiriad danfon</b>	<p>Gall defnyddio cyfeiriad y cyngor, er enghraifft Neuadd y Ddinas, rybuddio'r busnes mae pryniant prawf gan swyddog gorfodi ydyw. Dylech ystyried a oes safle ALL yn eich lleoliad lle nad yw'r cyfeiriad yn amlwg mai adeilad y cyngor ydyw, neu ofyn i'r adran dai os allwch ddefnyddio cyfeiriad tŷ gwag.</p> <p>Mae mwyafrif y gwasanaethau cludo yn cynnig gwasanaethau tracio, ac felly byddwch yn gwybod pryd y bydd yn cyrraedd. Dylech ystyried defnyddio gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol; er hynny, codir ffi am hyn, ac mae busnesau yn defnyddio ystod o wasanaethau cludo eraill er mwyn danfon eu nwyddau. Er mwyn cadw tystiolaeth, mae angen i chi fod yn sicr na fydd unrhyw un yn agor pecynnau. Os oes rhywun yn agor y pecyn, mae angen iddynt ddarparu datganiad tyst yn nodi nad ydynt wedi ymyrryd â'r sampl. Unwaith y defnyddir un cyfeiriad am gyfnod, gall bod angen ei newid er mwyn osgoi</p>

	rhybuddio gwerthwyr mai swyddog sy'n prynu.
<b>Cyfrifiadur ar wahân sydd â chysylltiad we ar wahân</b>	<p>Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae natur guddiedig y prynu yn hanfodol, megis lle mae amheuan bod twyll bwyd.</p> <p>Gall cyfrifiaduron y cyngor a rhwydweithiau diwifr ddatgelu pwy ydych i'r rheiny sydd â digon o wybodaeth technoleg gwybodaeth. Bydd nifer o wasanaethau Safonau Masnach eisoes â chyfrifiaduron ar wahân, ac mae'r Uned E-drosedd Genedlaethol yn gallu darparu arian i'w prynu ar gyfer agweddau eraill o waith safonau masnach. Hyd yn oed os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur ar wahân, gallwch barhau i samplu, ond bydd angen bod yn ymwybodol y gallwch fod yn samplu'n agored ac y gellir dilyn eich ôl troed digidol.</p>

## Gofynion samplu

22. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol ar gyfer samplu gan fusnesau bwyd ar-lein. Bydd gofynion [Rheoliad \(CE\) 882/2004](#), y [Ddeddf Diogelwch Bwyd \(1990\)](#), [Rheoliadau Diogelwch Bwyd \(Samplu a Chymhwyso\) \(Lloegr\) \(2013\)](#),<sup>1</sup> unrhyw ofynion samplu penodol megis ar gyfer bwydydd a fewnforiwyd a [Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd](#) felly yn berthnasol fel y byddai ar gyfer unrhyw sampl ffurfiol arall.
23. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion arferol yn berthnasol pan gymerir sampl ffurfiol, sef:
- lle caiff ei anfon i'w ddadansoddi, lle bo digon o'r cynnyrch wedi'i gasglu a lle bo'n ymarferol o fewn rheswm, caiff y sampl ei rannu yn dair rhan er mwyn

---

<sup>1</sup>Y ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr; Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Gogledd Iwerddon) 1991, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymhwyso) (Cymru) 2013

gallu cael safbwynt arbenigol ychwanegol gan y perchennog ac un arall fel sampl dyfarnu

- bod gweithredwr y busnes bwyd yn cael gwybod bod sampl wedi'i gymryd ar ôl iddo gael ei dderbyn
  - caiff rheolau tystiolaethol eu dilyn.
24. Wrth samplu bwyd yn swyddogol, dylech gofnodi'r broses brynu ar-lein yn ddigidol rhag ofn y bydd ei angen fel tystiolaeth. Gweler **Atodiad D**.
25. Pan rydych yn derbyn y sampl, dylech gadw cysondeb tystiolaeth ar bob adeg. Dylech gadw'r pecyn, oherwydd gall marciau post helpu i adnabod gwerthwyr os bydd dadl dros bwy yw'r gwerthwr.
26. Cofnodwch y broses rannu yn llyfr nodiadau'r swyddogion.
27. Dylech anfon rhan o'r sampl i'r perchennog cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Mae hyn yn ofyniad yn ôl Rheoliadau (Samplu a Chymhwyso) Diogelwch Bwyd (2013).
28. Os yw'r sampl wedi dod o du allan i'r UE, dylai fod ganddo ddatganiad mewnfario neu ffurflen dollau. Dylech wirio ei fod wedi'i ddatgan yn gywir – er enghraifft, roedd DNP yn cael ei ddatgan fel Turmeric, kava kava fel te pupur neu hyd yn oed fel rhoddion neu samplau masnach. Mae'n bwysig rhannu'r wybodaeth hon ag asiantaethau gorfodi eraill megis Iechyd Porthladdoedd (gweler 'cyfeirio a rhannu gwybodaeth').

## Mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio

29. Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am gamau gorfodi ffurfiol y gellir eu cymryd er mwyn sicrhau bod busnes yn cydymffurfio, yn ogystal ag ambell i fesur ymyrryd amgen y gellir eu cymryd. Dylai'r swyddog awdurdodedig ystyried pa gamau gweithredu sy'n rhesymol, sy'n gymesur, sy'n seiliedig ar risg ac yn gyson ag arfer da, yn unol â Phennod 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a pholisi gorfodi'r awdurdod lleol.

30. Rhaid i'r swyddogion awdurdodedig ystyried yr holl opsiynau gorfodi. Mae hyn yn cynnwys addysgu gweithredwyr busnesau bwyd, rhoi cyngor, camau gweithredu anffurfiol, cymryd samplau, cadw ac atafael bwyd, cyflwyno Hysbysiadau Gwella neu Hysbysiadau cymwys eraill a gweithdrefnau erlyn.
31. Pan fo partneriaeth Prif Awdurdod yn bodoli, dylai'r awdurdod gorfodi geisio adfer achos o ddiffyg cydymffurfio drwy gydweithio â'r Prif Awdurdod.
32. Pan fo angen casglu tystiolaeth er mwyn cymryd camau gorfodi ffurfiol, mae **Atodiad D** yn darparu technegau casglu tystiolaeth y gallech eu hystyried i gyd-fynd â nodiadau'r swyddog. Pan fo tystiolaeth yn cael ei chasglu'n ddigidol, bydd angen ystyried gofynion y [Cod Ymarfer ac Ymddygiad a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Gwyddoniaeth Fforensig](#).
33. Gallech hefyd ystyried dulliau ymyrryd posibl eraill:
  - Dylech gyfeirio at yr [Awdurdod Safonau Hybysebu](#) (ASA). Mae cylch gwaith yr ASA yn cynnwys hysbysebu ar-lein, cynnwys gwefannau cwmnïau, hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasu megis Twitter a Facebook a Hysbysebu Ymyddygiadol Ar-lein (OBA). Maent hefyd yn ymdrin â honiadau maeth ac iechyd. Dylech nodi nad ydynt yn ymdrin â honiadau ar ddeunydd pecynnu (oni bai ei bod yn bosibl gweld yr honiad mewn hysbyseb), hysbysebu mewn siopau, cynhyrchion ar werth sy'n cynnwys sylweddau wedi'u gwahardd, na chwaith honiadau yn ymwneud â thrin neu wella canser.

## Dirwyn presenoldeb busnes ar-lein i ben

34. Ar hyn o bryd, nid oes pwerau o dan gyfraith bwyd i gau gwefannau sy'n troseddu, fodd bynnag mae ambell i dechneg y gall ALLau ei defnyddio i fynd i'r afael â'r gwefannau hyn:
  - Cysylltu â'r cwmni sy'n gyfrifol am gynnal y wefan – mae cytundebau sawl cwmni yn cynnwys cymalau sy'n gofyn i'r wefan gadarnhau ei bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Efallai y gallwch ddangos bod y wefan yn torri'r

gyfraith ac felly yn torri telerau cytundebol â'r cwmni sy'n cynnal y wefan. Gallai'r cwmni gytuno i dynnu'r wefan oddi ar y rhyngrwyd.

- Cysylltu â phwy bynnag sydd wedi cofrestru'r parth. Mae [Cytundeb Achredu Cofrestryddion](#) 2013 (RAA) yn gofyn yn 3.18.1/3.18.2 bod cofrestryddion achrededig â Chorfforaeth y Rhyngrwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir (ICANN) yn darparu gwybodaeth gyswllt mewn perthynas â chamddefnyddio/cam-drin ac yn cymryd camau i ymchwilio i achosion o gamddefnydd/cam-drin. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch anghyfreithlon. Edrychwch am y tab 'Cwyno am Gamddefnyddio/Cam-drin' ar gofrestrfa'r parth er mwyn rhoi gwybod am hyn. Mae gofyn i chi ddangos bod gan y wefan bresenoldeb gwerthu yn y DU. Gall hyn gynnwys prisiau mewn Punnoedd (£) a/neu opsiynau dosbarthu i'r DU.
- Cysylltu ag eBay – mae gan eBay [bolisi bwyd](#) a'r pwynt cyswllt canolog yw [ukcwreports@ebay.com](mailto:ukcwreports@ebay.com). Gall torri'r polisi hwn arwain at ystod o gamau gweithredu, gan gynnwys:
  - dileu'r eitem ar eBay
  - cyfyngiadau ar freintiau'r cyfrif
  - gwahardd y cyfrif
  - colli ffioedd eBay ar eitemau wedi'u canslo
  - colli statws 'PowerSeller'
- Cysylltu â Facebook – mae [Datganiad Hawliau a Chyfrifoldebau Facebook](#) yn cynnwys Adran 3: Diogelwch, Pwynt 9 (yn yr iaith wreiddiol) '*You will not use Facebook to do anything unlawful, misleading, malicious, or discriminatory.*' Mewn achosion difrifol, gallwch gysylltu â'r Uned Genedlaethol E-droseddau sydd wedi sefydlu perthynas waith dda â Facebook.

35. Gallwch gysylltu â'r cwmni sy'n gyfrifol am y gynnal y wefan neu'r platfform gwerthu ac amlinellu'r troseddau y gallant gael eu herlyn yn eu cylch os ydynt yn parhau i fod yn gartref i'r wefan/gwerthwr.

36. Ni fyddai Erthygl 14 [Cyfarwyddiaeth e-Fasnach 2000/31/CE](#) yn cynnig amddiffyniad effeithiol i gwmnïau cynnal gwefannau pan fo gwybodaeth ganddynt am y weithred anghyfreithlon a'u bod yn methu â mynd i'r afael â hi ar frys er mwyn tynnu'r wybodaeth o'r wefan neu atal mynediad at yr wybodaeth.
37. Cysylltu ag Amazon – Mae Amazon yn disgwyl i bob gwerthwr gydymffurfio â phob cyfraith gymwys. Mae Amazon wedi creu'r pwyntiau cyswllt hyn:
- [eu-authority-takedown@amazon.com](mailto:eu-authority-takedown@amazon.com) – i weithredu ceisiadau gan awdurdodau rheoleiddio i dynnu cynhyrchion bwyd nad ydynt yn cydymffurfio neu sydd â'r potensial i fod yn anniogel oddi ar wefannau Ewropeaidd Amazon.
  - [eu-compliance-questions@amazon.com](mailto:eu-compliance-questions@amazon.com) – ar gyfer cwestiynau mwy cyffredinol ar gynhyrchion sydd â'r potensial i fod yn anniogel sydd ar werth ar wefannau Ewropeaidd Amazon. Gall torri polisiau Amazon arwain at:
    - Dileu'r eitem ar Amazon
    - Cyfyngiadau ar freintiau'r cyfrif
    - Gwahardd y cyfrif
    - Colli statws gwerthu

## Cyfeirio at awdurdodau porthladd

Pan gaiff tystiolaeth o weithgarwch posibl mewn man cyrraedd y DU (porthladd neu faes awyr) ei nodi, dylai ALLau gysylltu â'r porthladd perthnasol er mwyn tynnu eu sylw at y mater.

## Addysgu defnyddwyr

Gallech ystyried codi ymwybyddiaeth o faterion neu droseddau penodol drwy wefannau a chyfryngau cymdeithasu cynghorau, neu drwy gynnal gwaith addysgol mwy cyffredinol er mwyn helpu cwsmeriaid i ddiogelu eu hunain. Er enghraifft, rhannu cyngor yr ASB i ddefnyddwyr wrth brynu bwyd ar-lein.



## Atgyfeirio a rhannu gwybodaeth

38. Mae enghreifftiau yn y tabl isod o bryd y dylid ystyried atgyfeirio. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylech ystyried gyda pha asiantaethau y dylech rannu'r wybodaeth er mwyn galluogi camau gorfodi effeithiol.

Digwyddiad	Camau gweithredu
Pan fo perygl i iechyd pobl	Cyfeirio at <a href="#">Tîm Digwyddiadau'r ASB</a>
Os nad yw'r cynnyrch neu'r wefan yn cydymffurfio â chyfraith yr UE (ond mae perygl uniongyrchol i iechyd pobl) ac mae'r busnes wedi'i leoli mewn Aelod-wladwriaeth arall.	<p>Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi lansio teclyn Technoleg Gwybodaeth pwrpasol, sef y system Cymorth a Chydweithio Gweinyddol (AAC), i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng awdurdodau cenedlaethol sy'n gweithio i atal troseddau traws-ffiniol yn Ewrop.</p> <p>Gallwch gysylltu â'r awdurdodau mewn Aelod-wladwriaeth arall yn yr UE drwy'r ASB (sy'n gweithredu fel Corff Cyswllt Unigol ar gyfer y DU) drwy'r ffurflen: <a href="#">Hysbysu'r ASB am Ddigwyddiad/Cyfnewid Gwybodaeth: Materion Bwyd Rheolaidd</a>.</p>
Pan gaiff cynhwysion meddyginiaethol eu canfod	<p>Cyfeirio at yr <a href="#">Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)</a> drwy: <a href="mailto:borderline_medicine@mhra.gsi.gov.uk">borderline_medicine@mhra.gsi.gov.uk</a></p> <p>Ar gyfer atgyfeiriadau ar frys, dylech ffonio Gwasanaeth Gwybodaeth MHRA (Adran 'Medicines Borderline') ar 0203 080 6000</p>
Pan rydych yn amau bod troseddu cyfundrefnol ( <i>organised crime</i> ) yn digwydd	Cyfeirio at yr <a href="#">Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd</a> . Os oes gennych unrhyw amheuan neu wybodaeth sy'n ymwneud â thwyll bwyd, mae'n bwysig eu cyflwyno i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.
Os ydych wedi derbyn sampl neu wybodaeth am gŵyn bod bwyd wedi'i ddatgan yn anghywir ar dystysgrif mewnforio	Dylech roi gwybod i Hyb Gwybodaeth Llu'r Ffiniau drwy anfon e-bost at <a href="mailto:bfih@homeoffice.gsi.gov.uk">bfih@homeoffice.gsi.gov.uk</a>

39. Mae'r [Rhwydwaith Rhyngwladol Gorfodi a Diogelu Defnyddwyr](#) yn eich caniatáu i ddod o hyd i gyrrff diogelu defnyddwyr mewn sawl gwlad ym mhedwar ban byd.
40. Os yw'r mater yn arbennig o gymhleth ac mae angen cyngor arnoch, gallai'r Uned Genedlaethol E-drosedd, yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd neu Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru fynd i'r afael â'ch achos neu roi cyngor i chi ar y ffordd orau ymlaen.

## Cynigion y dyfodol

Dylech nodi bod y Comisiwn Ewropeaidd yn trafod darpariaethau samplu penodol ar gyfer e-fasnach ar hyn o bryd ynghyd â mentrau eraill, gan ei fod wedi cydnabod bod angen gwaith a chydweithio pellach er mwyn sicrhau diogelwch bwyd.

Mae'r comisiwn hefyd yn ystyried y cynnig i alluogi'r awdurdodau cymwys i orchymyn bod gweithgarwch gweithredwyr busnesau bwyd yn dod i ben yn gyfan gwbl neu'n rhannol am gyfnod priodol.

## Ffynonellau hyfforddiant/cymorth pellach

Dylech nodi nad yw'r adran hon yn gynhwysfawr a gallai newid. Mae darparwyr hyfforddiant eraill ar gael.

- Mae uned e-drosedd Safonau Masnach Cenedlaethol wedi paratoi cyflwyniad sylfaenol i drosedd ar y rhyngwrwd sydd ar gael i swyddogion safonau masnach ar gais. Mae'r cwrs pedair awr hwn yn cynnwys profion ar ddiwedd pob adran ac mae'n gyflwyniad i sut mae'r rhyngwrwd yn gweithio, gwneuthuriad tudalennau gwe, beth yw enwau parth, sut mae cipio tudalennau gwe, gwefannau ac asedau digidol eraill:

<http://www.tradingstandardsecrime.org.uk/training/> – Saesneg yn unig

- Mae Better Training for Safer Food (BTFSF) yn fenter y Comisiwn wedi'i hanelu at drefnu strategaeth hyfforddiant yr UE ym meysydd cyfraith bwyd, cyfraith bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid, yn ogystal â rheolau iechyd planhigion. Maent yn darparu cyrsiau manwl 3 i 5 diwrnod o hyd ar ystod eang o bynciau gan

gynnwys technegau ymchwilio newydd i fynd i'r afael â thwyll bwyd ac e-drosedd. Mae'r cyrsiau drwy gyfrwng y Saesneg. Darperir llety a thrafnidiaeth, ac maent wedi'u hariannu gan y Comisiwn. <http://ec.europa.eu/chafea/food/calendar.htm> – Saesneg yn unig

## Dolenni defnyddiol

- [Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd – Canllawiau Ymarferol](#) Pennod 7 Gwerthu o bell / Archebu drwy'r post
- [Canllawiau'r Diwydiant Bwyd ar Arferion Hylendid Da – Archebu Bwyd Drwy'r Post](#) (2008)
- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon [Canllawiau Arfer Da ar gyfer Tystiolaeth Ddigidol](#) (2012)
- [Rhwydwaith Dilysrwydd Bwyd](#)
- [Rhwydwaith Uniondeb Bwyd](#)
- [Menter OPSON](#)

## Atodiad A – Cyngor ar chwilio ar y we

1. Defnyddiwch yr opsiwn chwilio uwch ar unrhyw beiriant chwilio – mae hyn yn caniatáu i chwilio'n fanylach a gwneud chwiliad mwy cynhwysfawr. Mae'r opsiwn chwilio uwch yn ddewis ar dudalen peiriant chwilio fel arfer. Mae'r dolenni canlynol yn rhoi cyngor gan Google ar chwilio:

- [blog.hubspot.com/blog/tabid/6307/bid/1264/12-Quick-Tips-To-Search-Google-Like-An-Expert.aspx#sm.00000all2k595hfomvncbxa6i7c03](http://blog.hubspot.com/blog/tabid/6307/bid/1264/12-Quick-Tips-To-Search-Google-Like-An-Expert.aspx#sm.00000all2k595hfomvncbxa6i7c03)
- [support.google.com/websearch/answer/2466433?p=adv\\_operators&hl=en-GB&rd=1](http://support.google.com/websearch/answer/2466433?p=adv_operators&hl=en-GB&rd=1)

2. Defnyddiwch beiriant 'metasearch', megis [Dogpile.com](http://Dogpile.com) a [metasearch.com](http://metasearch.com). Mae'r dulliau chwilio hyn yn defnyddio nifer o beiriannau chwilio er mwyn dod â chanlyniadau at ei gilydd, gan gynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant wrth chwilio.

3. Peidiwch â chwilio am enw yn unig; defnyddiwch unrhyw fanylion sydd gennych i chwilio. Gall rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost roi mwy o wybodaeth i chi.

4. Defnyddiwch <http://archive.org/web/>, archif o dros 400 biliwn o dudalennau gwe. Gallwch ganfod hen wefannau sydd wedi'u diddymu bellach, neu weld pa gynnwys oedd ar dudalen ar unrhyw adeg benodol.

### Cyngor penodol wrth chwilio ar eBay ac Amazon

5. eBay: Er mwyn canfod busnesau sy'n gweithredu yn eich ardal, neu'n agos:

- cliciwch ar y botwm 'shop by category' a dewiswch
- cliciwch ar 'see all categories'
- yna ewch at y categori 'Home, furniture & DIY' ac yna dewiswch 'Food and Drink' (DS Os ydych yn chwilio am y gair 'food' yn unig yn y sgrin gyntaf, bydd eich chwiliad yn cynnwys llyfrau coginio, bwyd ar gyfer tŷ bach twt ac eitemau eraill yn ymwneud â bwyd).

6. Defnyddiwch yr opsiwn chwilio uwch er mwyn canfod gwerthwyr o fewn X milltir o leoliad cod post. (Yn ddelfrydol dylech geisio canfod cod post ar gyfer pwynt canolog eich ardal ddaearyddol, a cheisiwch sefydlu radiws milltiroedd at ffin eich awdurdod, a gosodwch ffilter i werthwyr busnes neu breifat).
7. Ewch at wybodaeth y gwerthwr. Edrychwch ar yr eitemau eraill mae'r gwerthwr yn eu gwerthu, a yw'n edrych fel busnes bwyd? Os nad ydyw, symudwch ymlaen.
  - Efallai bod gan y gwerthwr 'Siop' ar eBay. Efallai y bydd angen i chi roi'r enw mewn peiriant chwilio cyffredinol er mwyn cael rhagor o wybodaeth, megis cyfeiriad, neu efallai bod gwefan sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y busnes. Os ydych wedi canfod enw cwmni cyfyngedig, ceisiwch chwilio ar Dŷ'r Cwmnïau.

## **Amazon**

Gallwch ganfod manylion gwerthwr ar Amazon Marketplace drwy fynd ar dudalen manylion y cynnyrch ar gyfer y cynnyrch dan sylw. Gallwch glicio ar enw'r gwerthwr lle mae'n nodi 'Dispatched from and sold by', a fydd yn mynd â chi at wybodaeth fanwl am y gwerthwr.

## Atodiad B – Dod o hyd i gyfeiriadau daearyddol busnesau

Mae gan bob gwefan gyfeiriad IP. Gan fod y rhain yn rhifau, ac felly ddim yn hawdd i bobl eu cofio, rydym ni'n defnyddio enwau y mae modd eu hadnabod, sef enwau parth (*domain names*), e.e. [www.food.gov.uk](http://www.food.gov.uk). Er mwyn sicrhau na chaiff yr un enw ei ddefnyddio mwy nag unwaith, mae'n rhaid cofrestru enwau parth â 'Chofrestrydd Enwau Parth'. Yn y Deyrnas Unedig, [Nominet](http://www.nominet.uk) yw'r corff sy'n gweinyddu'r broses hon, a byddant yn cofrestru pob enw parth lefel uchel sy'n gorffen â .co.uk, org.uk, .me.uk, .cymru a .wales.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffaith fod gwefan yn gorffen â .co.uk yn golygu bod y busnes sy'n cofrestru'r wefan wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig. Gall unrhyw un gofrestru unrhyw wefan unrhyw le yn y byd.

Mae pob gweinyddwr enwau parth yn cynnig adnoddau sy'n galluogi unrhyw un i ganfod pwy sydd wedi cofrestru enw parth busnes. Mae Nominet yn y Deyrnas Unedig yn cynnig gwefan 'Who is' [www.nominet.uk/whois](http://www.nominet.uk/whois). Mae'r adnodd hwn hefyd yn nodi ers pryd y mae'r wefan wedi'i chofrestru, a allai fod yn ddefnyddiol gyda'ch ymholiadau.

Mae ambell i gyfyngiad y mae gofyn i chi fod yn ymwybodol ohonynt:

- Gall unigolion preifat ddewis peidio â chynnwys eu cyfeiriad ar y gwasanaeth 'Who is'. Gweler yr adran '[Opt out](#)' ar wefan Whois i gael rhagor o fanylion. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallant ryddhau'r wybodaeth i chi os ydych chi'n gallu dangos i Nominet bod y wefan yn anghyson â'r amodau 'optio allan', yn bennaf:
  - nid ydynt yn unigolyn (h.y. maent yn gwmni, yn sefydliad, yn gymdeithas ac ati)
  - mae'r enw parth yn cael ei ddefnyddio i werthu i gwsmeriaid (gwefannau masnach); neu'n bennaf i hysbysebu neu hyrwyddo nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau
  - mae'r wefan yn gweithredu fel trydydd parti a gyflogir i weithredu fel cofrestrwyr gwefannau. Pan mai dyma'r achos, efallai bydd gofyn i chi roi Hysbysiad S29 o dan y Ddeddf Diogelu Data ar y sawl sy'n cynnal y wefan.

Fodd bynnag, mewn achosion lle mae'r trydydd parti y tu allan i'r DU, mae'n bosibl na fydd hyn yn llwyddiannus iawn.

- caiff gwybodaeth ffug ei darparu. Mae'r broses wirio i gofrestru enwau parth yn gyfyngedig, felly mae modd defnyddio enwau a chyfeiriadau ffug Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod cyfeiriad yn un iawn. Ewch ati i wirio cyfeiriadau gan gynnwys rhif y tŷ, gan ddefnyddio Google maps, [Teclyn dod o hyd i god post y Post Brenhinol](#) a gwasanaethau ar-lein eraill, er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd gennych chi.

Hefyd, mae modd talu am wasanaethau sy'n darparu systemau mwy soffistigedig ar gyfer chwilio am ddata, megis gwefannau eraill sydd wedi'u cofrestru gan yr un person neu yn yr un cyfeiriad Mae hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw wefannau newydd a gaiff eu cofrestru gyda geiriau penodol, megis 'Norfolk', sy'n ddefnyddiol os ydych chi eisiau cael eich hysbysu am fusnesau newydd yn eich ardal neu 'ketones' er enghraifft os ydych chi'n targedu eich gwaith.

Unwaith i chi wirio'r enw a'r cyfeiriad ac maent yn eich ALI, gallwch wirio a ydynt wedi cofrestru fel busnes bwyd. Os nad ydynt wedi cofrestru, neu os yw'n ymddangos nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, mae angen i chi ystyried y ffordd orau i gysylltu â nhw (h.y. drwy lythyr neu wyneb yn wyneb).

Mewn achos lle'r ydych chi wedi cysylltu busnes ar-lein ag ardal ALI arall, dylech anfon yr wybodaeth werthfawr hon ymlaen at yr ALI sy'n gyfrifol.

## Atodiad C – Senarios enghreifftiol

### Senario 1

Mae cigydd ar y stryd fawr, Cig Campus Cyf, sy'n enwog am ei selsig a'i gig moch, yn penderfynu ehangu ei fusnes drwy werthu'r cynhyrchion hyn ar-lein. Caiff y cynhyrchion eu dosbarthu drwy wasanaeth Dosbarth Cyntaf y Post Brenhinol.

Mae'r un gofynion cyfreithiol yn gymwys yn y sefyllfa hon ac sydd ar gyfer unrhyw safle cigydd confensiynol arall, ond gan fod y busnes wedi penderfynu gwerthu ar-lein, mae gofyn i'r arolygiad ystyried y gofynion canlynol:

Mae [Canllaw'r Diwydiant Bwyd ar Arferion Hylendid Da: Archebu Bwyd Drwy'r Post](#) (2008) (Saesneg yn unig) yn cynnwys cyngor manwl ar weithredu [Rheoliad \(CE\) 852/2004](#), gan gynnwys siartiau rheoli diogelwch bwyd model yn seiliedig ar egwyddorion HACCP, ac mae'n trafod y materion hylendid sy'n codi wrth ddsbarthu bwyd.

#### Hylendid (a yw'r bwyd yn ddiogel pan mae'n cyrraedd y cwsmer?)

##### Prif feysydd i'w hystyried

- Gofynion tymheredd addas ar gyfer y cig moch a'r selsig – er nad oes angen i'r bwyd fod yn oer wrth gludo at y defnyddiwr terfynol, ni ddylid ei gludo ar dymheredd a all achosi perygl i iechyd. A yw'r busnes wedi cymryd camau ychwanegol yn ystod cyfnodau cynhesach y flwyddyn?
- A yw'r deunydd pecynnu yn ddigonol er mwyn atal croeshalogi neu i sicrhau tymheredd diogel?
- A yw'r gwasanaeth cludo yn gyflym ac yn ddibynadwy?
- A oes marc ar y pecyn yn nodi dyddiad dosbarthu a chyfarwyddyd i'r defnyddiwr bod y pecyn yn cynnwys eitemau sy'n mynd yn ddrwg?

#### Safonau

##### Prif feysydd i'w hystyried

- A yw'r wefan yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr?



- A yw labeli'r cynhyrchion yn cydymffurfio?
- A yw'r cynhyrchion yn bodloni safonau cyfansoddiadol cymwys?
  - Rheoliadau E-fasnach
  - Deddf Hawliau Defnyddwyr (canslo/telerau annheg)
  - Priso
  - Pwyso a mesur
  - Gofynion Datrys Anghydfodau Ar-lein a Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod

## Senario 2

Mae Cwmni Llysiâu Llesol Cyf yn mewnfario ffa mwng a had o drydydd gwledydd, a'u gwerthu ar wefan i ddefnyddwyr a manwerthwyr, megis canolfannau garddio. Caiff y ffa a'r had eu pecynnu ar dymheredd ystafell a'u hanfon at brynwyr drwy'r Post Brenhinol. Nid yw Cwmni Llysiâu Llesol Cyf yn fusnes cymeradwy na chofrestredig.

### Cymeradwyo neu gofrestru

Nid yw cwmni Llysiâu Llesol Cyf yn egino'r had, felly nid oes gofyn ei gymeradwyo. Pe bai'r cwmni yn gwneud hyn, byddai gofyn ei gymeradwyo o dan [Reoliad \(CE\) Rhif 852/2004](#) a'r gofynion o dan [Rheoliad y Comisiwn \(UE\) Rhif 210/2013](#). Mae gofyn i'r busnes fod wedi'i gofrestru â'r Awdurdod Cymwys fel mewnfariwr, dosbarthwr a manwerthwr.

### Rheolaethau Mewnfario

Mae gofyn i ALLau ystyried a yw'r busnes yn cydymffurfio â rheolaethau mewnfario sy'n gymwys ar gyfer had i'w hegino, megis gofynion ardystio a ddarperir ar eu cyfer yn [Rheoliad y Comisiwn \(UE\) Rhif 211/2013](#). Mae angen i'r dystysgrif wreiddiol gyd-fynd â'r llwyth tan ei fod yn cyrraedd ei gyrchfan, fel y nodir yn y dystysgrif.

Mae angen i Gwmni Llysiâu Llesol Cyf sicrhau bod copi o'r dystysgrif yn cyd-fynd â'r had a anfonir at ei gwsmeriaid busnes.

Mae [dogfen holi ac ateb](#) ar ysgewyll a had wedi'i chynhyrchu gan yr ASB ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd a swyddogion ALLau.

### **Olrhain**

Mae gofynion olrhain ychwanegol yn gymwys ar gyfer had i'w hegino o dan [Reoliad Gweithredu'r Comisiwn \(UE\) Rhif 208/2013](#).

### **Rheolaethau microbiolegol**

Mae gofynion samplu a phrofi wedi'u cyflwyno ar gyfer ysgewyll a had a ddefnyddir i gynhyrchu egin. Fodd bynnag, mae hyn ond yn gymwys i sefydliadau sy'n cynhyrchu egin. Nid yw Cwmni Llysiau Llesol yn gwneud hynny, felly nid yw'n gymwys yn yr achos hwn, ond efallai bod angen i swyddogion bennu a yw cwsmeriaid busnes Cwmni Llysiau Llesol yn cynhyrchu egin ac yn cydymffurfio â [Rheoliad \(CE\) Rhif 2073/2005](#).

Mae angen i ALLau ystyried a yw busnesau ar-lein yn cydymffurfio â rheolaethau mewnforio pwysig megis y rheiny sy'n gymwys ar gyfer hâd i'w hegino. Dangoswyd pa mor bwysig yw hyn pan fu farw 50 o bobl yn 2011 ar ôl i egin ffenigrig organig a fewnforiwyd i'r Almaen ddatblygu'r genynau i gynhyrchu E. Coli sy'n cynhyrchu tocsin Shiga.

### **Mesurau i reoli tymheredd**

Mae modd anfon yr hâd a'r ffa drwy'r post ar dymheredd ystafell, ond dylid eu pecynnu i atal croeshalogi, fel gydag unrhyw fwyd arall.

## Atodiad D – Casglu tystiolaeth ddigidol

Lle caiff tystiolaeth ddigidol ei chasglu, bydd angen ystyried gofynion y [Cod Ymarfer ac Ymddygiad](#) a gyhoeddwyd gan y [Rheoleiddiwr Gwyddoniaeth Fforensig](#).

Mae rhaglenni cyfrifiadurol, megis 'Hypercam', 'BB flashback' a 'snag it', sy'n eich galluogi i recordio beth ydych chi'n ei weld ar eich sgrin, er enghraifft wrth i chi archebu sampl bwyd gan fanwerthwr bwyd ar-lein neu wrth edrych ar yr honiadau ar y wefan. Mae fersiynau sylfaenol o'r rhaglenni hyn ar gael yn rhad ac am ddim.

### Arfer da

- Mae'n bwysig, waeth pa raglen yr ydych chi'n dewis ei defnyddio, nad yw'n caniatáu i'r data gael ei olygu.
- Yn ogystal â recordio wrth archebu'r sampl ei hun, dylech sicrhau eich bod hefyd yn cynnwys tudalennau sy'n ymwneud â'r cynnyrch ac unrhyw dudalennau cysylltiedig, megis dolenni at honiadau.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn recordio'r dudalen sy'n datgan hunaniaeth gyfreithiol a chyfeiriad y busnes. Mae'r manylion hyn fel arfer ar gael ar y dudalen 'Cysylltu â Ni' neu yn y telerau ac amodau. Os nad yw'r wybodaeth yn bresennol, ceisiwch nodi ei habsenoldeb hefyd drwy archwilio rhannau helaeth o'r wefan lle byddech yn disgwyl gweld yr wybodaeth hon.
- Fe all fod yn syniad da cynllunio ymlaen llaw pa dudalennau yr ydych chi am ymweld â nhw wrth recordio fel nad yw'r recordiad yn cynnwys gormod o ailadrodd wrth i chi archwilio'r wefan.
- Cofiwch aros ar bob tudalen ddigon hir fel bod darllenwr cyffredin yn gallu prosesu'r wybodaeth berthnasol ar y dudalen. Cofiwch fod modd stopio neu oedi (*pause*) recordiad os oes llawer o wybodaeth ar dudalen.
- Sgrolwch lawr y dudalen i gynnwys yr holl destun.
- Cofiwch gadw cofnod o'r llwybr archwilio ac unrhyw nodiadau.
- Mae'n annhebygol bod angen awdurdodiad o dan [Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio](#) (2000) i gymryd sampl ar-lein.

- Mae'n well diffodd y sŵn oni bai bod hysbysebion perthnasol gyda sŵn yr ydych chi'n dymuno eu recordio.
- Cadw copi wrth gefn o'r dystiolaeth – mae angen i chi arbed y dystiolaeth ddigidol ar ffurf a fydd yn ei chadw'n ddiogel h.y. CD neu DVD.

[Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio \(2000\)](#) (RIPA): Cofiwch sicrhau eich bod yn dilyn gweithdrefnau eich sefydliad a'ch bod yn ymwybodol o ganllawiau RIPA ar wyliadwriaeth dan gyfarwyddyd a Ffynonellau Gwybodaeth Dynol Cudd (CHIS). Mae'n bosibl bod rhai llwyfannau ar-lein, megis Facebook, yn caniatáu i chi lunio perthynas. Mewn achos o'r fath, dylid ystyried yr angen i awdurdodi eich swyddog fel CHIS drwy ymgynghori â'ch polisïau RIPA.

Efallai y byddai e-bostio busnes yn ei annog i werthu cynnyrch hefyd yn cael ei gwestiynu. Yn gyffredinol, os ydych chi'n edrych ar gyfrif Facebook personol mwy na thair gwaith, efallai y bydd gofyn ceisio awdurdod gwylidwriaeth dan gyfarwyddyd.

## **Gair i gall wrth fynd ar-lein**

### **1. Cofiwch glirio cwcis a storfeydd rhyngwyd dros dro cyn i chi fynd ar-lein**

Mae cwcis yn ffeiliau testun plaen y mae gweinyddion gwefannau yn eu hanfon at eich cyfrifiadur i'w galluogi i dargedu beth ydych chi'n ei weld pan ydych chi'n ymweld â'u gwefan eto, yn seiliedig ar eich ymweliadau blaenorol. Er enghraifft, mae hyn yn golygu os yw swyddog wedi bod yn ymchwilio i werthu mêl ar Amazon, ac wedi derbyn cwcis, y tro nesaf y byddant yn ymweld ag Amazon, mae'n debygol y bydd mêl yn ymddangos cryn dipyn yn yr hysbysebu, ynghyd â chynhyrchion cysylltiedig. Mae'n debygol, heb ddileu cwcis cyn dechrau chwilio o'r newydd, bydd gwahanol swyddogion yn gweld gwahanol gynnwys wrth ymweld â'r un safle. Byddai hyn yn mynd yn groes i egwyddor ailadrodd tystiolaeth electronig sy'n seiliedig ar gyfrifiaduron. (Canllaw Arfer Da ACPO ar gyfer tystiolaeth electronig sy'n seiliedig ar gyfrifiaduron)

### **2. Ceisiwch osgoi 'dim ond edrych' ac ymweld â'r un wefan sawl gwaith**

Ond bai bod rheswm teilwng dros wneud hynny e.e. eich bod yn monitro newidiadau i'r disgrifiadau ac ati. Ewch ati i wirio gwefan yn gynhwysfawr y tro cyntaf, efallai gan ddefnyddio rhestr wirio cydymffurfio. Penderfynwch pa gamau yr ydych chi am eu cymryd a ph'un a oes angen i chi gadw copi o'r wefan at y dyfodol.

### 3. Ewch ati i sefydlu'r cyfeiriad IP

Mae gan bob cyfrifiadur gyfeiriad rhyngrwyd unigryw o'r enw'r cyfeiriad IP. Mae'r cyfeiriad IP yn cynnwys pedwar grŵp o rifau sydd wedi'u gwahanu gan bwyntiau. Er enghraifft, '194.176.69.41' yw'r cyfeiriad IP ar gyfer [www.tradingstandards.uk](http://www.tradingstandards.uk).

Gall cyfeiriadau IP fod yn statig neu'n fwy tebygol, yn ddeinamig. Mae deinamig yn golygu eu bod yn newid yn gyson felly mae'n bwysig cofnodi cyfeiriad IP unrhyw wefan dan sylw bob tro fel eich bod yn gallu ei holrhain yn hwyrach os oes angen. Dylai gweinyddwr y parth (*domain*) gadw cofnod o ba safle ddefnyddiodd pa gyfeiriad IP ar ba adeg. Mae adnoddau ar-lein sy'n eich galluogi i edrych ar gyfeiriad IP gwefan, megis: <http://ping.eu/nslookup/> a <http://mxtoolbox.com/DNSLookup.aspx>

### 4. Archifau gwefannau

Mae rhaglenni 'webreaper', megis y '[waybackmachine](http://waybackmachine.org)', yn cofnodi cynnwys gwefannau fel eich bod yn gallu gweld sut oedd y wefan yn edrych yn y gorffennol. Mae poblogrwydd y wefan yn pennu pa mor aml y mae hyn wedi cael ei wneud, ond fe all fod yn ddefnyddiol wrth sefydlu hanes y busnes.

### 5. Defnyddiwch 'Google cache' i edrych ar dudalennau gwe

Mae Google Cache yn storio copïau o dudalennau gwe a restrir gan Google. Mae Google yn treiddio drwy'r we ac yn cymryd cipluniau o bob tudalen i'w cadw wrth gefn. Yna, mae'r tudalennau hyn yn dod yn rhan o storfa, neu *cache*, Google. Mae gan hyn y fantais nad ydych yn gadael ôl traed ar y safle os ydych chi'n defnyddio cyfrifiadur y Cyngor, neu os yw'r perchennog wedi tynnu gwefan yn ôl yn ddiweddar.